

**RHONDDA CYNON TAF  
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL**

**GWŶS I GYFARFOD**

**P J Lucas  
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf  
Y Pafiliynau  
Parc Hen Lofa'r Cambrian  
Cwm Clydach CF40 2XX**

Ffôn: (01443) 424099 – Mrs Z.Maisey

**DYMA WŶS I CHI** i gyfarfod o **GYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** sydd i'w gynnal yn Swyddfeydd Cyngor y Fwrdeistref Sirol, Y Pafiliynau, **Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, brynhawn Mercher, 26 Mawrth 2014 am 5.00 p.m.**

**AGENDA**

**Tudalennau**

**DATGANIAD BUDDIANT**

- 1** Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan gynghorwyr, yn unol â gofynion Côd Ymddygiad y Cyngor

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant personol sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

**2 CYHOEDDIADAU**

**3 COFNODION**

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd 1 – 20 ar 26 Chwefror 2014 yn rhai cywir.

**4 CYFLWYNIAD**

**Paratoi Cyfeiriad Strategol ar gyfer Gwasanaethau Iechyd y Meddwl Pobl Hŷn**

Derbyn cyflwyniad gan Dr.Paul Davies, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gweithrediadau (Iechyd y Meddwl a CAHMS), Bwrdd Iechyd Cwm Taf

## LLYWODRAETHU AGORED

- 5** **DATGANIADAU** yn unol â gofynion Rheol Dull Gweithredu 2

**Derbyn datganiadau gan Arweinydd y Cyngor a/neu Gynghorwyr sy'n Aelodau o'r Cabinet mae gyda nhw gyfrifoldebau gweinyddu.**

## **6** **CWESTIYNAU GAN Y CYNGHORWYR**

- (1) **Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol L.Walker i Arweinydd y Cyngor (Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A.Christopher), neu yn ei absenoldeb, i'r Dirprwy Arweinydd (Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol P.Cannon, QPM)**

"Yn wyneb yr hinsawdd economaidd bresennol, byddai'n ddoeth i ganslo ein haelodaeth o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a defnyddio'r arian hwnnw, sydd oddeutu £140,000, i ariannu gwasanaethau sy'n flaenoriaeth gan nad yw aelodaeth yn ofyniad statudol? "

- (2) **Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol L.Walker i Arweinydd y Cyngor (Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A.Christopher), neu yn ei absenoldeb, i'r Dirprwy Arweinydd (Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol P.Cannon, QPM) neu i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Datblygu Cynaliadwy, Hamdden a Thwristiaeth (Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol D.R.Bevan)**

"Ydych chi'n cytuno â mi, ac ar sail tegwch, y dylai Pwll Nofio'r Ddraenen Wen, cael ei dynnu o Gam 2 y broses ymgynghori gan fod y pwll ar gau ar gyfer gwaith cynnal a chadw i'r to. Felly, mae'r pwll mewn sefyllfa annheg a dylid ystyried ei ddyfodol wedi i'r gwaith cynnal a chadw ddod i ben."

- (3) **Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol M.J.Powell i Arweinydd y Cyngor (Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A.Christopher).**

"Faint mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi ei dalu mewn taliadau digolledu/iawndal dros y pum mlynedd ariannol ddiwethaf?"

- (4) **Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol M.J.Powell i Arweinydd y Cyngor (Cyngorydd y**

**Fwrdeistref Sirol A.Christopher).**

"Faint mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn ei dalu bob blwyddyn o ran anfonebau heb eu gwirio?"

## **ADRODDIADAU'R SWYDDOGION**

- 7 Rhaglen Gyfalaf y Cyngor 2014/15–2016/17 21 – 42**

Trafod adroddiad y Cabinet

- 8 Strategaeth Cylch Rheoli'r Trysorlys gan gynnwys Strategaeth Buddsoddi Blynyddol a Mynegyddion Materion Darbodusrwydd ar gyfer 2014/15**

Trafod adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y 43 – 67  
Gwasanaethau Corfforaethol

- 9 Darpariaeth Is-ddeddfau ar Aciwbigo, Tatwio, Lliwio Croen yn Lled Barhaol, Tyllu Cosmetig ac Electrolysis**

Trafod adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y 69 – 70  
Gwasanaethau Amgylchedd

- 10 Penodi Uwch Grwner Amser Llawn**

Trafod adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau 71 – 72  
Cyfreithiol a Llywodraethol

- 11 Datganiad 2014-2015 y Cyngor ar Bolisi Cyflogau**

Trafod adroddiad ar y cyd Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol 73 – 81  
a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol

- 12 RHYBUDD O GYNNIG heb ei drafod yn ystod cyfarfod o'r Cyngor ar 26 Chwefror 2014**

Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau'r Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol L.Walker, P.Wasley a P.Howe:

"A fyddai'r Cyngor yn ystyried, er budd pennaf pobl dda Rhondda Cynon Taf ac o ran y Broses Ddemocrataidd, fod nifer y rhybuddion o gynigion sydd ar gael i wrthbleidiau yn cynyddu i bump ar gyfer y Grŵp Annibynnol bob blwyddyn"

**13 RHYBUDD O GYNNIG**

Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol P.Jarman, G.R.Davies, I.Pearce, K.Morgan, S.Rees-Owen, M.Weaver, C.Davies, S.Evans-Fear ac E.Webster:


"Bydd y Cyngor yn gweithio tuag at ennill statws "Dementia Gyfeillgar" sy'n gydnabyddiaeth swyddogol gan y Gymdeithas Alzeimer.

Bydd y Cyngor yn penodi cynghorydd i swydd Hyrwyddwr Materion Dementia yn ogystal â phenodi blaen swyddog materion dementia.

Bydd y Cyngor hefyd yn annog staff a chynghorwyr i fod yn "Gyfaill Dementia" drwy fentrau "Cyfeillion Dementia" y Gymdeithas Alzeimer.

Bydd y Cyngor yn cymryd rhan mewn ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth a sicrhau ei fod yn ystyried y rheiny sy'n byw gyda dementia a'u cynhalwyr drwy eu cynnwys yn rhan benodol o Aseidiadau Effaith ar Gydraddoldeb. "

**14** Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb y Maer, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.



**Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol**

**At: Pob aelod o'r Cyngor**

**19 Mawrth 2014**